CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cwn
(Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 (OS
2007/702 (W.59)

Gorchymyn Gwahardd Cwn Llanfairfechan 2009

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

1

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar **24 Awst 2009**

2

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn Yr Atodlen

Y Tramgwydd

3
(1) Bydd person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn euog o dramgwydd ar unrhyw adeg os bydd y person hwnnw yn mynd â'r ci ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, neu yn caniatáu iddo fynd arno neu aros arno oni bai-

(a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros wneud hynny; neu
(b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw wneud hynny.

(2) Nid oes dim yn yr erthygl hon yn gymwys iberson-

(a) sydd wedi'i gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu
(b) sydd yn fyddar, mewn perthynas â chi wedi'i hyfforddi gan Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358) ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth;
neu
(c) sydd ag anabledd sy'n effeithio ar eisymudedd, ei ddeheurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario neu i symud teclynnau beunyddiol, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon -

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno; a

(b) mae pob un o'r canlynol yn "elusen a ragnodwyd"-

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestredig rhif 700454);

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

(ii) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281);
(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestredig rhif 803680).

Y Gosb
4
Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan erthygl 3 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

10 Awst 2009

Phil Rafferty
Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio'r

ATODLEN

Y Traeth rhwng y 2 lithrfa, sy'n ymestyn o'r Promenâd i'r Marc Dŵr Isel, Llanfairfechan rhwng 1 Mai a 30 Medi.